

Our Bright Future: Papur Dysgu 3



DATHLIAD DAN ARWEINIAD IEUENCTID O EFFEITHIAU OUR BRIGHT FUTURE
AR GYFER YR AMGYLCHEDD A CHYMUNEDAU

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfres o bapurau dysgu sy'n ceisio deall a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen Our Bright Future.

Roedd Our Bright Future, a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn rhaglen o 31 o brosiectau a gynhaliwyd rhwng 2016 a 2021 a ddaeth â'r sectorau amgylcheddol ac ieuencid at ei gilydd. Roedd y prosiectau'n rhannu'r nod o rymuso pobl ifanc (11 i 24 oed) i arwain newid amgylcheddol yn y dyfodol ac yn amrywio o ran maint o genedlaethol i leol. Roedd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys y canlynol: cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol; eu cynnwys mewn hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith; eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd eu hunain ynghylch materion amgylcheddol; a'u helpu i ddechrau eu mentrau cynaliadwy eu hunain.

Mae'r dystiolaeth yn y papurau hyn wedi'i chasglu fel rhan o werthusiad o Our Bright Future. Mae'n seiliedig ar gyfweiliadau ac arolygon gyda'r rhai oedd yn ymwneud â'r rhaglen, ac adroddiadau cynnydd gan y prosiectau. Ysgrifennwyd y papurau gan werthuswyr y rhaglen, Economic Research Service Ltd (ERS) a Collingwood Environmental Planning (CEP), fel adnodd i alluogi dysgu o'r rhaglen i ddylanwadu ar ddarpariaeth yn y dyfodol.

Cyflwyniad

Mae'r papur dysgu hwn yn canolbwyntio ar straeon dau brosiect Our Bright Future a sut maent wedi bod o fudd i'r **amgylchedd a chymunedau lleol**. Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaeth gwerthuswyr rhaglen Our Bright Future, ERS Ltd, recriwtio dau berson ifanc o wahanol brosiectau i gynnal ymchwil i ateb y cwestiwn:

Pa wahaniaeth mae ein prosiect ni wedi'i wneud i'r amgylchedd a chymunedau?

Roedd y bobl ifanc a ddaeth ymlaen yn dod o'r prosiectau: **BEE You** (Blackburne House) ac **Ein Glannau Gwyllt** (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru). Roedd yr aseiniad o dri diwrnod o waith am dâl yn cynnwys sesiwn briffio a, gyda chymorth tîm ERS Ltd, cynhaliodd y ddau berson ifanc ymchwil a llunio adroddiad ysgrifenedig. Arweiniodd y bobl ifanc ar bob agwedd ar eu prosiectau ymchwil, gan gynnwys dylunio'r fethodoleg a'r adnoddau ymchwil, casglu data, dadansoddi ac adrodd.

Cyflwynir y ddau adroddiad a luniwyd gan yr ymchwilwyr ifanc ar y tudalennau sy'n dilyn. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos enghreifftiau o'r canlyniadau i'r amgylchedd a chymunedau y mae prosiectau Our Bright Future wedi'u cyflawni. I gael disgrifiad llawn o'r canlyniadau a gyflawnwyd ar draws y rhaglen, edrychwch ar adroddiad gwerthuso terfynol Our Bright Future. <https://www.ourbrightfuture.co.uk/about/our-impact/>

Wedyn mae adran casgliadau'r papur hwn yn dod â chanfyddiadau o'r ddwy astudiaeth achos at ei gilydd ac yn cyflwyno'r rhain yng nghyflwyniad destun dysgu o'r rhaglen ehangach.

¹Talwyd Cyflog Byw i'r ymchwilwyr ifanc



Dylunio a
chynllunio
prosiectau



Casglu
data



Dadansoddi



Adrodd

Canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd a chymunedau: Adroddiad dan arweiniad ieuenctid Prosiect BEE You

Prosiect BEE You

Nod Prosiect BEE You oedd rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am weny mël a phryfed peillio, a'u pwysigrwydd i'r amgylchedd. Roedd y prosiect hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau cadw gwenyn. Gwnaeth hyn drwy ddarparu gwersi a phrofiadau ymarferol o weithio gyda gwenyn mël. Rhan greiddiol o weithgareddau BEE You oedd ymweld â sefydliadau gwahanol, fel ysgolion a cholegau, i ddarparu hyfforddiant ar sut i gadw gwenyn. Unwaith roedd y myfyrwyr wedi cwblhau'r cwrs, rhoddodd BEE You gychod gwenyn i'r sefydliad i fyfyrwyr eu cadw a'u cynnal. Yn ystod y prosiect, hyfforddwyd 800 o bobl ifanc a derbyniodd pob sefydliad addysgol a gymerodd ran yn y prosiect gychod gwenyn i alluogi i'r myfyrwyr barhau i ddefnyddio eu sgiliau.

Cyflwyniad i'r ymchwil a'r fethodoleg

Mae'r adroddiad astudiaeth achos yma yn manylu ar sut gwnaeth prosiect BEE You wahaniaeth i'r amgylchedd a chymunedau. Er mwyn casglu tystiolaeth o effaith y prosiect, cynhaliwyd pedwar cyfweiliad lled-strwythuredig: tri gydag aelodau o staff a fu'n rhan o'r prosiect ac un gyda pherson ifanc a gymerodd ran mewn cwrs BEE You. Tynnwyd themâu allweddol o'r data ac mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y prosiect wedi cael ystod o effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a'r gymuned leol.



Canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd

1. O ganlyniad i brosiect BEE You, **mae'n debygol bod sawl cymuned wedi gweld mewnlifiad mawr o bryfed peillio i'w hardaloedd lleol**, a all yn ei dro arwain at blanhigion iachach a mwy llewyrchus yn y dyfodol. O ganlyniad i'r mewnlifiad newydd o weny mël a gefnogwyd gan BEE You, fe wnaeth un tiwtor prosiect **"sylwi ar gnwd enfawr yn y coed ffrwythau oherwydd nifer y gwenyn sy'n peillio yno"**. Mae'n debygol y bydd y cynnydd hwn mewn cnwd yn arwain at ecosystem leol iachach a mwy amrywiol gan y bydd y ffrwythau hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd chwilota am fwyd i bryfed peillio eraill yn ogystal â gwenyn mël, fel gwenyn unigol, cacwn, glöynnod byw, gwyfynod, pryfed hofran a chwilod.
2. **Dysgodd pobl ifanc a chymunedau wybodaeth ac ymwybyddiaeth o weny a'u pwysigrwydd i'r amgylchedd.** Cyflwynodd y prosiect gyrsiau mewn cadw gwenyn i 694 o bobl ifanc, a buont yn dysgu am anghenion gwenyn a'r planhigion sy'n eu helpu i oroesi. Yn ogystal â'r cyrsiau, defnyddiodd y prosiect ddigwyddiadau i gyrraedd 2,988 o bobl ifanc a chynnyddu eu hymwybyddiaeth gyffredinol o bryfed peillio. Dywedodd un person ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ei fod wedi dod yn fwy ymwybodol o ddefnyddioldeb rhai mathau o blanhigion sy'n aml yn cael eu dosbarthu fel chwyn.
3. Mae'r prosiect hefyd wedi **mae pobl ifanc yn fwy tebygol o rannu eu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd.** Dywedodd y person ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ei fod bellach, o ganlyniad i gymryd rhan mewn cwrs BEE You, yn cymryd gofal i beidio â thynnu nac achosi difrod i blanhigion y mae gwenyn yn eu defnyddio fel ffynhonnell hanfodol o fwyd. Dywedodd y person ifanc hefyd, diolch i'w ymwybyddiaeth amgylcheddol gynyddol, ei fod bellach yn fwy tebygol o dreulio amser yn clirio ei ardal leol.
4. O ganlyniad i'r prosiect, **young people are more likely to share their knowledge and raise awareness about the importance of taking care of the environment.** Er enghraifft, aeth un o gyfranogwyr BEE You ymlaen i gael ei gyflogi fel tiwtor ar y prosiect, gan roi cyfle gwych iddo barhau i rannu'r wybodaeth a gafodd drwy gymryd rhan yn y cyrsiau. Yn ôl staff y prosiect a gyfwelwyd, roedd pobl ifanc hefyd yn rhannu eu gwybodaeth amgylcheddol gyda'u rhwydweithiau ehangach. Ategwyd y canfyddiad hwn gan y person ifanc a gyfwelwyd, a adroddodd ei fod wedi dechrau cael mwy o sgysiau gyda'i rwydwaith personol am sut i ofalu am yr amgylchedd o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect.

“

Mae gennych chi bobl yn meddwl, 'O, fe alla' i dyfu bwyd - iawn mae'n rhaid i mi wneud a, b ac c ac mae hynny'n gofalu am y gwenyn ac mae'r cyfan yn rhyng-gysylltiedig,' gan greu manau gwyrdd gwell ac amgylchedd gwell.

”

TIWTOR BEE YOU

Canlyniadau ar gyfer cymunedau

1. Helpodd prosiect BEE You i wella cydlyniant cymunedol lleol.

Daeth y prosiect â gwahanol grwpiau o bobl â diddordeb yn yr amgylchedd at ei gilydd. Darparodd y prosiect ofod unigryw i'r aelodau cymunedol hyn lle gallent ddysgu mewn grŵp a rhyngweithio a dod i ddeall ei gilydd. Oherwydd bod y prosiect yn hyfforddi pobl o fewn sefydliadau a arweinir gan y gymuned, roedd yn gallu dod â phobl leol o wahanol grwpiau oedran at ei gilydd na fyddent wedi cyfarfod fel arall efallai. Adleisiodd y person ifanc a gyfwelwyd y canfyddiad hwn a mynegodd pa mor llwyddiannus oedd y prosiect wrth ddod â phobl o 'bob cefndir' at ei gilydd, gan ddweud ei bod yn **"haws cwrdd â phobl newydd pan mae'n rhaid i chi gymryd rhan a gwneud yr un gweithgareddau, mae'n hawdd dechrau sgysiau."** Dywedodd y person ifanc bod y prosiect wedi bod yn gyfle gwybodaeth i grŵp â phobl ac ehangu ei gylch ffrindiau mewn ardal lle nad oes llawer o weithgareddau ar gael.

2. Helpodd y prosiect hefyd i wella chwe man cymunedol

(gan gynnwys fferm gymunedol a gardd gymunedol) **a rhoi hwb i economïau lleol**, gan greu cymhelliant i bobl leol barhau i helpu gyda chynnal y gwenyn mêl. Dywedodd un o'r tiwtoriaid BEE You a gyfwelwyd, pan ymwelodd ag un o'r gwenynfeydd a sefydlwyd mewn ysgol, ei fod wedi gweld bod gan y myfyrwyr ddiddordeb mawr mewn gwenyn o hyd ac y byddent yn gwirfoddoli eu hamser yn rheolaidd i helpu yn y wenyfa. Yn ôl y tiwtor, roedd cynhyrchu mêl lleol hefyd yn rhoi **"rheswm i bobl y gymuned fod yn falch o'u hardal leol"** ac yn eu hannog i brynu nwyddau lleol eraill. Dywedodd un o diwtoriaid BEE You bod y prosiect yn cefnogi cyfranogwyr i hybu eu heconomiâu cymunedol, gan fod trigolion yn gallu gwerthu'r mêl a gynhyrchwyd o'u hardal leol.

Casgliad

I gloi, drwy gymryd rhan ym mhrosiect Ein Glannau Gwyllt roedd pobl ifanc yn gallu cymryd perchnogaeth o brosiectau amgylcheddol a oedd yn caniatáu iddynt ddod yn angerddol am gyflawni newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd a chymunedau. O ganlyniad, ysbrydolodd pobl ifanc bobl leol i ddysgu mwy am eu gwarchodfeydd natur a bywyd gwyllt lleol eu hunain ac i newid eu hymddygiad i ddod yn fwy ecogyfeillgar. Fe wnaeth y prosiect hefyd wella llawer o fannau bywyd gwyllt ar draws Gogledd Cymru a chreu llawer o fannau naturiol newydd i gymunedau lleol eu mwynhau.



Canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd a chymunedau: Adroddiad dan arweiniad ieuenctid Ein Glannau Gwyllt

Prosiect Ein Glannau Gwyllt

Nod y prosiect Ein Glannau Gwyllt oedd cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltiad pobl ifanc â'r amgylchedd, a'u hannog i gymryd camau amgylcheddol. Roedd y prosiect hefyd yn anelu at wella cydlyniant cymunedol a chreu a gwella mannau naturiol ar draws Gogledd Cymru.

Fel rhan o'r prosiect, aethpwyd â phobl ifanc i gynefinoedd a gwarchodfeydd natur lleol a'u haddysgu am waith cadwraeth. Roedd rhai pobl ifanc hefyd yn gallu cwblhau cynlluniau hyfforddi, cymwysterau a dyfarniadau drwy eu gweithgareddau cadwraeth. Yn ogystal, trefnodd y prosiect ddigwyddiadau addysgol y gwahoddwyd pobl ifanc, y gymuned leol a thwristiaid iddynt i wneud gweithgareddau fel glanhau traethau. Cymerodd pobl ifanc rôl arweiniol wrth ddylunio a chyflwyno'r gweithgareddau hyn.

Cyflwyniad i'r ymchwil a'r fethodoleg

Mae'r adroddiad astudiaeth achos hwn yn amlinellu'r effeithiau a gafodd Ein Glannau Gwyllt ar yr amgylchedd a chymunedau lleol. Fel sail i ganfyddiadau'r adroddiad hwn, cwblhawyd deg cyfweiliad lled-strwythuredig: dau gyda rheolwyr prosiect, dau gydag aelodau o staff y prosiect, a chwech gyda phobl ifanc.

Canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd

- 1. Addysgwyd pobl ifanc am sut i ddiogelu'r amgylchedd a newidiwyd eu hymddygiad o ganlyniad i ymgysylltu â'r prosiect.** Drwy'r cyfleoedd gwirfoddoli a'r cynlluniau hyfforddi a gynigiwyd fel rhan o'r prosiect, dysgodd pobl ifanc sut i reoli ystod o feysydd amgylcheddol drwy wneud gwaith cadwraeth ymarferol mewn gwahanol warchodfeydd natur lleol. O ganlyniad i'r wybodaeth a gawsant drwy'r prosiect a'r siawns o weithgareddau prosiect a ddarparwyd i gysylltu'n fwy uniongyrchol â natur, dywedodd pobl ifanc hefyd eu bod wedi dechrau cymryd camau i ddiogelu'r amgylchedd yn eu bywydau o ddydd i ddydd.
- 2. Rhannodd pobl ifanc eu gwybodaeth amgylcheddol gyda'u rhwydweithiau a'u cymunedau lleol hefyd.** Gwnaeth pobl ifanc hyn drwy gynnal digwyddiadau addysgol lle buont yn addysgu pobl leol am bynciau fel lleihau'r defnydd o blastigau untro, neu bwysigrwyd plannu blodau gwyllt. Er enghraifft, mewn digwyddiad plannu blodau gwyllt, cefnogwyd pobl leol gan y bobl ifanc i blannu eu gofod bywyd gwyllt eu hunain. Roedd llawer o bobl ifanc hefyd yn rhannu eu gwybodaeth gyda ffrindiau a theulu, o fewn a thu allan i'r gymuned leol. Er enghraifft, dywedodd un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd bod ei ddefnydd llai o blastig untro wedi annog eraill yn ei deulu i wneud yr un peth. O ganlyniad, gostyngwyd eu gwastraff cartref cyffredinol.
- 3. Creodd y prosiect ardaloedd bywyd gwyllt newydd a gwella cyflwr manau naturiol presennol Gogledd Cymru.** Bu'r bobl ifanc yn gwella ac yn gwarchod manau naturiol drwy wneud gwaith cadwraeth ymarferol fel plannu coed a chreu gerddi blodau gwyllt newydd. Fe wnaeth digwyddiadau'r prosiect, fel glanhau traethau a chasglu sbwriel, wella cyflwr yr ardal leol hefyd. Dywedodd staff y prosiect bod aelodau'r gymuned wedi mynd ymlaen i greu ardaloedd bywyd gwyllt newydd hefyd o ganlyniad i fynychu digwyddiadau addysgol y prosiect a rhyngweithio â'r bobl ifanc.
- 4. Roedd y prosiect yn gallu dod ag aelodau'r gymuned at ei gilydd drwy bynciau amgylcheddol.** Trefnodd y bobl ifanc a gymerodd ran yn Ein Glannau Gwyllt nifer o ddigwyddiadau i siarad â phobl leol am yr amgylchedd. Er enghraifft, yn ystod Covid, cynhaliodd pobl ifanc gwisiau a chystadlaethau ar-lein ar gyfer y cyhoedd. Un o'r cystadlaethau hyn oedd cystadlaethau blodau gwyllt Minecraft, lle sefydlodd y bobl ifanc weinydd i bobl greu eu gerddi blodau gwyllt Minecraft eu hunain, ac roedd pobl ar Facebook yn gallu pleidleisio dros yr ardd orau yn eu barn nhw. Yn ôl aelod o staff, y gystadlaethau yma gafodd y sylw mwyaf o ran ymgysylltu ar dudalen Facebook Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae hyn wedi dylanwadu ar y ffyrdd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â'r gymuned leol yn y dyfodol.

“ Un o'r pethau rydw i wedi'i wneud yw fy mod i wedi [defnyddio] llawer llai o blastig untro, gan geisio cael gwared â chymaint o bethau nad oes modd eu hailgylchu â phosibl. Dydi hynny ddim bob amser yn bosibl.

PERSON IFANC

“ Cynhaliwyd cwisiau tafarn (ar-lein) gennym ni, cynhaliwyd cystadlaethau Minecraft, cystadlaethau celf, llofnodwyd llond gwlad o ddeisebau, buom yn siarad â llawer o wahanol bobl, a chynnal digwyddiadau ar-lein. Rhoddodd yr wybodaeth a'r gallu i ni amrywio'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

RHEOLWR PROSIECT

Casgliad

I gloi, drwy gymryd rhan ym mhrosiect Ein Glannau Gwyllt roedd pobl ifanc yn gallu cymryd perchnogaeth o brosiectau amgylcheddol a oedd yn caniatáu iddynt ddod yn angerddol am gyflawni newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd a chymunedau. O ganlyniad, ysbyrdolodd pobl ifanc bobl leol i ddysgu mwy am eu gwarchodfeydd natur a bywyd gwyllt lleol eu hunain ac i newid eu hymddygiad i ddod yn fwy ecogyfeillgar. Fe wnaeth y prosiect hefyd wella llawer o fannau bywyd gwyllt ar draws Gogledd Cymru a chreu llawer o fannau naturiol newydd i gymunedau lleol eu mwynhau.

“ Roedd modd rhoi pwrpas newydd i ddarn o dir oedd yn cael ei orddefnyddio ar un adeg - oherwydd bod pawb wedi anghofio amdano - ac fe'i gwnaed yn llawer brafach oherwydd hynny. Ac mae'n debyg ei fod hefyd wedi rhoi'r ardal honno ar y map... i bobl eraill efallai nad oedden nhw'n gwybod ei bod yno.

PERSON IFANC



Effeithiau amgylcheddol a chymunedol

Mae'r adroddiadau astudiaeth achos hyn yn dangos y buddion y mae dau brosiect Our Bright Future wedi'u cael ar yr amgylchedd ac o fewn cymunedau. Bydd llawer o'r canlyniadau hyn yn cael eu cynnal y tu hwnt i oes y rhaglen Our Bright Future, gan greu gwaddol o effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a chymunedau.

Canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd

- **Dylanwadodd pobl ifanc ar eraill i wneud newidiadau cadarnhaol i warchod yr amgylchedd:** drwy rannu eu dysgu mewn digwyddiadau cymunedol a thrwy weithgareddau a arweiniwyd gan y prosiectau, dylanwadodd y bobl ifanc ar aelodau o'u cymunedau i ofalu am yr amgylchedd yn fwy nag y byddent fel arall. Er enghraifft, bu i bobl ifanc ddylanwadu ar eraill i leihau eu gwastraff ac i greu eu manau bywyd gwyllt eu hunain.
- **Gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd lleol:** cwblhaodd y prosiectau waith cadwraeth mewn nifer o safleoedd lleol, gan gynnwys gwarchodfeydd natur, ardaloedd arfordirol, ac ysgolion a cholegau. Roedd canlyniadau'r gwaith hwn yn cynnwys gwell cyflwr i fannau gwyrdd, creu cynefinoedd, a llai o sbwriel.
- **Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol pobl ifanc o'r amgylchedd:** cafodd pobl ifanc wybodaeth a sgiliau yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau amgylcheddol, yn enwedig gwaith cadwraeth ymarferol. Enillodd 100 o bobl ifanc o BEE You a 243 o Ein Glannau Gwyllt gymwysterau proffesiynol a / neu achrededig mewn pynciau amgylcheddol.
- **Datblygodd pobl ifanc sgiliau ymarferol yn ymwneud â chadwraeth amgylcheddol.** Roedd hyn yn cynnwys sgiliau fel cadw gwenyn, ailwylltio, a chasglu sbwriel.

Canlyniadau ar gyfer cymunedau

- **Aeth y prosiectau ati i wella cydlyniant cymunedol** drwy ddod â grwpiau amrywiol at ei gilydd drwy weithgareddau prosiect. Roedd pobl ifanc yn gallu ffurfio rhwydweithiau agos a meithrin perthnasoedd cadarn, parhaol ag eraill yn eu cymuned. Roedd aelodau'r gymuned hefyd yn gallu cyfarfod â phobl leol eraill o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys pobl ifanc, mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau.
- **Cafodd manau cymunedol eu gwella'n uniongyrchol gan weithgareddau prosiectau:** cafodd manau newydd fel gwarchodfeydd natur eu gwella ac, o ganlyniad, gwnaed cymunedau'n ymwybodol o'r manau naturiol oedd ar gael iddynt a phrofwyd mwy o fwyndad o'r manau hyn, gan eu gwneud yn fwy tebygol o ymweld eto a pharhau i ofalu amdanynt.
- **Roedd pobl ifanc hefyd yn gallu cael cymunedau i gymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol cadarnhaol a phlannu coed.**

Adlewyrchu ar y dull a arweinir gan bobl ifanc o weithredu gyda'r papur dysgu hwn

Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn gweld y profiad o adrodd ar eu prosiectau fel ymchwilwyr ifanc yn brofiad gwerthfawr, gan eu harfogi â'r sgiliau a'r enghreifftiau o brofiadau 'bywyd go iawn' i gefnogi gyrfaedd posibl mewn ymchwil yn y dyfodol.

Adlewyrchodd yr ymchwilwyr ifanc yn gadarnhaol ar yr hyfforddiant a ddarparwyd a gwerthfawrogwyd y cyfle i ddysgu mwy am dasgau ymchwil penodol, fel cyfweld, adrodd, a chynllunio prosiectau. Nodwyd hefyd gymhlethodau'r cam adrodd ac adlewyrchwyd ar bwysigrwydd darparu digon o gyfle i ofyn cwestiynau a cheisio cyngor yn ystod y cyfnod hwn o'r prosiect.

Ailadroddodd yr ymchwilwyr ifanc hefyd bwysigrwydd rhoi digon o amser ar gyfer prosiectau ymchwil a arweinir gan bobl ifanc: nid yn unig y mae cyfyngiadau amser yn cyflwyno heriau o ran casglu data, ond hefyd roedd yn ofynnol i ymchwilwyr ifanc ffitio eu gwaith ymchwil o amgylch eu hymrwymiaadau presennol.

